Beibl i Blant
yn cyflwyno

Y ffefryn yn troi'n gaethwas

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Byron Unger; Lazarus

addaswyd gan: M. Kerr; Sarah S.

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2014 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Roedd Isaac yn hapus iawn. Roedd ei fab Jacob yn ôl gartref.

Cafodd groeso hyd yn oed gan Esau, y brawd oedd wedi dweud y byddai'n ei ladd.

Ond doedd meibion Jacob ddim yn hapus oherwydd Joseff, eu brawd ieuengaf, oedd ffefryn eu tad.

Aeth brodyr Joseff hyd yn oed yn fwy blin pan ddisgrifiodd ei freuddwydion.



“Safodd fy ysgub i yn dal, ac fe wnaeth ysgubau fy mrodyr blygu o’i flaen,” meddai Joseff. Roedd y freuddwyd yn dangos y byddai Joseff yn bwysicach na’i frodyr.




Yn ail freuddwyd Joseff, dechreuodd yr haul, y lleuad a'r sêr blygu o'i flaen.


Roedd hyd yn oed ei dad Jacob yn flin am ei fod yn meddwl ei hun yn bwysicach na'i rieni a'i frodyr.

Un diwrnod cafodd Joseff ei anfon gan Jacob i'r caeau lle roedd ei frodyr yn bugeilio'r defaid.



Wrth ei weld yn dod dyma nhw'n dweud dan eu gwynt, "Gadewch i ni ladd y breuddwydiwr hwn."



Doedd Joseff ddim yn sylweddoli ei fod mewn peryg.



Roedd Reuben, y brawd hynaf, yn anghytuno. "Ddylen ni ddim tywallt gwaed," meddai.



“Mae yna bydew yma. Beth am ei daflu yno!” Bwriad Reuben oedd achub Joseff wedi iddi dywyllu.



Wedi i Joseff gyrraedd, dyma'i frodyr yn gafael ynddo, ...

... tynnu'r gôt liwgar roedd Jacob wedi ei gwneud yn arbennig i'w hoff fab.

Yna fe wnaethon nhw daflu Joseff i'r pydew ofnadwy.

Pan oedd Reuben wedi gadael ei frodyr am ychydig, cyrhaeddodd carafan o gamelod ar





eu ffordd i'r Aifft.

"Beth am werthu Joseff," awgrymodd Jwda, ei frawd. Dyma nhw'n taro bargen a





gwerthu Joseff am 20 darn o arian.

Roedd gan Joseff ofn ac roedd yn agos at ddagrau wrth i'r camel honcian ymlaen a'i gario oddi



wrth ei deulu a'i wlad.

"Ai cot Joseff ydy hon? Mae yna waed arni. Fe ddaethon ni o hyd iddi yn yr anialwch."

Fe wnaeth y brodyr creulon adael i Jacob gredu bod anifail gwyllt wedi lladd ei hoff fab.

Rhwygodd
Jacob ei ddillad
i ddangos ei fod
yn galaru am ei
fab. Roedd yn
amhosib
ei gysuro.

Yn yr Aifft, mae'n siŵr fod Joseff yn teimlo'n ofnus ac unig, efallai yn hiraethu am ei gartref. Ond doedd e ddim yn gallu dianc.

Roedd yn gaethwas yn nhŷ Potiffar, Eifftiwr pwysig iawn.

Sylweddolodd Potiffar fod Joseff bob amser yn gweithio'n galed, a'i fod yn gallu ei drystio.

"Mae popeth wyt ti'n ei wneud yn llwyddo," dywedodd Potiffar wrth Joseff un diwrnod.



"Mae Duw gyda ti. Rydw i am dy wneud yn brif was i mi. Cei redeg fy holl fusnesau, a bod yn feistr ar fy ngweision i gyd."



Oherwydd Joseff,
rhoddodd Duw
gynaeafau da,
a chyfoeth i
Potiffar.



Roedd Joseff nawr yn ddyn pwysig ac roedd e'n dal i drystio Duw a'i wasanaethu'n ffyddlon. Ond daeth trwbl i fywyd Joseff.



Roedd gwraig Potiffar yn ddynes ddrwg. Gofynnodd i Joseff a oedd e'n barod i gymryd lle ei gŵr.

Gwrthododd Joseff. Doedd e ddim yn barod i bechu yn erbyn Duw wrth wneud cam â Potiffar.



Rhedodd i ffwrdd pan geisiodd y wraig ei orfodi i gytuno. Ond fe wnaeth hi gydio yn ei gôt.

Cwynodd gwraig Potiffar am Joseff.
"Mae dy was wedi ymosod arna i.
Edrycha – dyma'i gôt!"



Roedd Potiffar yn gynddeiriog. Efallai fod e'n gwybod bod ei wraig yn dweud celwydd, ond roedd rhaid iddo wneud rhywbeth.

Beth?

Rhoddodd Potiffar Joseff yn y carchar. Roedd e'n ddi-euog, ond doedd Joseff ddim yn chwerw na blin.

Efallai ei fod wedi dysgu o'i helyntion y byddai Duw yn ei anrhydeddu lle bynnag ...

... oedd e –
hyd yn oed yn
y carchar –
dim ond iddo
fe, Joseff,
anrhydeddu
Duw.

Y ffefryn yn troi'n gaethwas

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Genesis 37, 39

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16